

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
<b>DYDDIAD:</b>	22 Mai 2023
<b>LLEOLIAD:</b>	Siambur y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron
<b>TEITL:</b>	Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.
<b>RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:</b>	Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
<b>CEFNDIR:</b>	

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae Adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

### CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION

#### **Cefndir**

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi derbyn diweddariadau yn y gorffennol am y broses o ddatblygu'r Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yng Ngheredigion.

#### **Cymeradwyo**

Ar ôl i Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 6 Mawrth 2023, gwnaeth pob un o sefydliadau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y Cynllun Llesiant Lleol yng nghyfarfodydd eu byrddau yn unigol, gan wneud hynny rhwng 22 Mawrth a 20 Ebrill. Gallwn gadarnhau bod pob un o aelodau statudol unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 drwy eu trefniadau llywodraethu arferol.

Fel un o'r aelodau statudol, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cynllun yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 22 Mawrth 2023, y Cabinet ar 4 Ebrill 2023 a'r Cyngor llawn ar 20 Ebrill 2023.

Cyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 24 Ebrill 2023 i gadarnhau'r broses o gymeradwyo'r Cynllun Llesiant 2023-28 a bu i'r holl bartneriaid gytuno'n unfrydol. Cytunwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar 2 Mai, gan fodloni'r terfyn amser statudol fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir pob etholiad cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Mae copi o Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn ei ffurf derfynol i'w weld yn **Atodiad 1**.

## **COFNODION DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWDYD AR 24 EBRILL 2023**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 i'r Pwyllgor a gallwch chi eu gweld yn **Atodiad 2**.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?  
Os naddo, nodwch pam**

Nid ydyw wedi'i gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn cynnig newid mewn Polisi na Gwasanaeth.

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**Crynodeb:**

**Hirdymor:  
Integreiddio:**

**Cydweithio:  
Cynnwys:  
Atal:**

### **ARGYMHELLION:**

- i. Nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.
- ii. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023.

### **RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Enw Cyswllt:** Naomi McDonagh / Tim Bray  
**Swydd:** Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil  
**Dyddiad yr adroddiad:** 22 Mai 2023